Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Martin Crescent
Tonyrefail
Porth
CF39 8NT

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 197 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 146 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 19.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 5.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 41.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/06/2011 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://mylocalschool.gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr diwyd yn sicrhau ethos cynhwysol a diwylliant cadarnhaol ar draws yr ysgol, sy’n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion. Mae’r weledigaeth ddeallus hon, sy’n cefnogi arferion gwella’r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymysg disgyblion. Mae cymhelliant a pharodrwydd arweinwyr i gryfhau gweithdrefnau gwella’r ysgol, trwy werthusiadau rheolaidd a thrylwyr, yn arwain at systemau effeithiol i ddatblygu’r ysgol ymhellach.

Mae arweinwyr yn adolygu perfformiad staff yn rheolaidd ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarn ar les a dysgu disgyblion. Mae llywodraethwyr yn herio a chefnogi arweinwyr yn ystyriol, ac yn canolbwyntio ar wella’r addysgu a dysgu trwy gylch monitro effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol a phriodol y tu mewn i’r ysgol, er nad yw’r ddarpariaeth yn yr awyr agored wedi’i datblygu’n ddigon da i gefnogi disgyblion i ymgolli’n llwyr yn eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n canolbwyntio ar ddatblygu holl fedrau’r disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol. O ganlyniad, mae’r cynnydd ym medrau llythrennedd disgyblion, yn y Gymraeg a’r Saesneg, a medrau rhifedd a digidol disgyblion, yn datblygu’n gadarn.

Ar y cyfan, mae rhediad sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra sy’n cefnogi’r dysgu. Er hyn, mewn ychydig o wersi, nid yw ansawdd addysgu’r athrawon a’r her a roddant i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae’r adborth a ddarperir gan athrawon i ddisgyblion i wella’u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r adborth hwn bob amser yn nodi’r camau nesaf yn nysgu disgyblion unigol yn gywir.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs ac ymddiriedus. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau ac awgrymiadau yn synhwyrol, sy’n datblygu eu teyrngarwch a pharch at bobl eraill yn effeithiol. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol gwerthfawr, sy’n cefnogi eu hymwybyddiaeth a’u gwerthfawrogiad diwylliannol yn bwrpasol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Herio'r holl ddisgyblion trwy gysoni'r arferion addysgu ar draws yr ysgol

A2. Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn nodi'n gywir y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

A3. Gwella ansawdd a darpariaeth y profiadau dysgu yn yr awyr agored

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae arweinwyr yn ymgymryd â'u rolau'n gydwybodol ac yn creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r weledigaeth synhwyrol hon yn arwain at ethos cynhwysol ac agweddau cadarnhaol ymysg y staff, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar weithdrefnau i wella darpariaeth a deilliannau disgyblion dros amser.

Mae arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth gadarn i staff a disgyblion yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio ar feithrin lles disgyblion fel man cychwyn i'w cyfeiriad strategol. Caiff y weledigaeth ei chefnogi gan amgylchedd dysgu addas. Mae athrawon a chymorthyddion yn creu ystafelloedd dosbarth ysgogol a difyr, sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn fuddiol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn llai effeithiol, ac nid yw'n targedu datblygiad a dilyniant medrau disgyblion yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn ddiwyd. Maent yn gweithredu prosesau gwella manwl a rheolaidd sy'n arwain at welliannau cynaledig dros gyfnod. Er enghraifft, mae datblygiadau diweddar yn arferion digidol disgyblion wedi gwella'u medrau ar draws yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinyddiaeth yr ysgol yn dda. Ar y cyd â'r staff, maent yn canolbwyntio ar wella ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu yn effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon o fewn y cylch monitro rheolaidd, sy'n dwyn athrawon i gyfrif am effaith eu gwaith ac i wella'r arferion addysgu.

Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn gelfydd i ddiwallu anghenion disgyblion. Maent yn saernïo perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni, ysgolion lleol, asiantaethau cefnogi a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau o gwmpas y pentref, digwyddiadau fel gweithdai celf a chrefft i rieni a'u plant, a gwersi Cymraeg i'r gymuned ehangach. Mae'r gweithgareddau hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned a'u hardal leol yn dda. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu'n effeithiol ar fywyd yr ysgol, eu cynefin a'r byd ehangach.

Mae arweinwyr yn cefnogi datblygiad staff yn grefftus. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella yn dda, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gwella presenoldeb disgyblion a gweithredu cwricwlwm sy'n cymell disgyblion i ddysgu'n weithredol am eu treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, sy'n cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais. Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY ac yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt yn synhwyrol. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod trefniadau pontio rhwng gwahanol gyfnodau o fewn a thu hwnt i'r ysgol, ynghyd â darparwyr eraill, yn galluogi disgyblion ag ADY i fanteisio ar gefnogaeth yn llwyddiannus.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn groesawgar i'w gilydd ac yn ymddwyn yn dda. Mae llawer yn siarad yn hyderus am eu profiadau dysgu ac mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion ac mae llawer yn gwrando'n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymdrechu'n dda i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.

Mae athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cymell disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ystyriol. Mae rhediad y rhan fwyaf o sesiynau addysgu yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra da ac mae gweithgareddau diddorol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion siarad a gwrando'n bwrpasol fel rhan bwysig o'r broses ddysgu. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn arferion addysgu'r athrawon, yn enwedig wrth ddarparu her briodol i ddisgyblion. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn gywir bob amser. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wella a sut i gyflawni'r gwelliannau yn gwbl effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, lle mae'r addysgu'n gryf, mae holi medrus yr athrawon yn dyfnhau dysgu disgyblion yn fwriadus. Mae trafodaethau heriol yn helpu disgyblion i adalw gwybodaeth flaenorol yn dda i greu cysylltiadau perthnasol yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol, fel ymchwilio am ffeithiau diddorol tra'n astudio effaith masnachu'n gyfrifol ar draws y byd. O ganlyniad, mae llawer yn ddarllenwyr da, sy'n ymgysylltu'n synhwyrol â thestunau ac yn darllen â mynegiant clir.

Mae athrawon a chymorthyddion yn defnyddio adnoddau a syniadau buddiol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu. O ganlyniad, mae disgyblion yn ysgrifennu at ddibenion amrywiol mewn ystod dda o ffurfiau defnyddiol. Yn gyffredinol, maent yn dechrau gwella'u gwaith trwy ei olygu a'i ailgyflwyno'n addas ac mae eu cynnydd yn gadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gydweithio a rhannu syniadau i ddatblygu eu medrau mathemateg, yn aml mewn dulliau ymarferol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn caffael medrau rhifedd effeithiol, er enghraifft tra'n cymharu costau deunyddiau fel rhan o'u menter entrepreneuraidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol effeithiol trwy reoli teganau rhaglenadwy a dilyn cyfarwyddiadau'n fanwl tra'n datblygu eu medrau codio. Mae hyn yn arfogi disgyblion i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd amrywiol, fel animeiddio chwedl y ddraig goch a'r ddraig wen.

Mae cynllunio'r athrawon yn darparu ehangder a chydbwysedd da ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r gweithgareddau diddorol yn cynnig profiadau dysgu buddiol, sydd ar y cyfan, yn adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach yn bwrpasol. Er enghraifft, ar daith addysgol, maent yn ymchwilio i hanes stryd fawr a siopau'r pentref, ac yn astudio themâu rhyngwladol yn ystyrlon trwy ddathlu gwahanol ddiwylliannau.

Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth gadarn ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion gan feithrin tosturi, myfyrdod a pharch yn synhwyrol. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae artistiaid lleol yn cydweithio ag athrawon i gyfoethogi medrau creadigol disgyblion yn llwyddiannus wrth gyfansoddi caneuon a chreu pypedau.

Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn deall manteision tyfu a gofalu am gynnyrch yn ardaloedd tyfu'r ysgol fel agwedd bwysig o fyw yn gynaliadwy. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi gwahanol gredoau, ac yn dangos goddefgarwch ac ystyriaeth deg at safbwyntiau pobl eraill yn fuddiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn destun pryder ac wedi eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025